General Pharmaceutical Council

Ar waith: Canllawiau ar gydsynio

Diwygiwyd Mehefin 2018

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018.

Cynnwys

Ynghylch y canllawiau hyn 4

Cydsyniad 6

1. Beth yw cydsyniad? 6
2. Mathau o gydsyniad 6
3. Cael cydsyniad 7

Galluedd 9

4. Beth yw galluedd? 9
5. Asesu galluedd 9

Oedolion 11

6. Oedolion â galluedd 11
7. Pan fo oedolyn cymwys yn gwrthod rhoi cydsyniad 11
8. Oedolion heb alluedd 11

Pobl ifanc a phlant 12

9. Pobl ifanc a phlant 12
10. Pobl ifanc â galluedd 12
11. Plant â galluedd 13
12. Pan fo pobl ifanc a phlant cymwys yn gwrthod rhoi cydsyniad 13
13. Pobl ifanc heb alluedd 13
14. Plant heb alluedd 14

Penderfyniadau o flaen llaw ac argyfyngau 15

15. Penderfyniadau o flaen llaw 15
16. Argyfyngau 16

Ffynonellau gwybodaeth eraill 17

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn rhan o'n swyddogaeth, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa.

Ynghylch y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn egluro pwysigrwydd cydsyniad i weithwyr fferyllol proffesiynol (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol), a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth. Dylent ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth gymhwyso'r canllawiau hyn at eu gwaith.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn sicr bod pob aelod o'u tîm yn ymwybodol o'r canllawiau hyn a'u bod wedi eu hyfforddi ymhob maes sy'n berthnasol i'w dyletswyddau.

Os yw gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ansicr ynghylch yr hyn y dylai ei wneud mewn unrhyw sefyllfa benodol, dylai wastad ofyn am gyngor gan ei gyflogwr, darparwr yswiriant indemniad, undeb, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at safon 1 y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, sy'n dweud:

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddarparu gofal sydd â phobl yn ganolog iddo

Gweithredu'r safon

Mae pob person yn unigolyn gyda'i werthoedd, anghenion a phryderon ei hun. Darperir gofal sydd â phobl yn ganolog iddo pan fo gweithwyr fferyllol yn deall yr hyn sy'n bwysig i unigolyn ac yna'n addasu'r gofal i ddiwallu ei anghenion - gan wneud gofal am y person yn brif flaenoriaeth. Gall ymddygiad pob gweithiwr fferyllol - boed yn darparu gofal yn unionyrchol ai peidio - fod yn un sydd â phobl yn ganolog iddo, pan fo'n ystyried effaith ei benderfyniadau ar bobl.

Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon, ac mae enghreifftiau o'r ymddygiad a'r agwedd rydym yn ei ddisgwyl isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- cael cydsyniad i ddarparu gwasanaethau gofal a fferyllol
- cynnwys, cefnogi a galluogi pob person wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd, gofal a lles
- gwrando ar bobl a deall eu hanghenion a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw
- rhoi pob darn o wybodaeth berthnasol i bobl mewn ffordd y gallan nhw ei deall, er mwyn iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau doeth
- ystyried effaith eu harferion gwaith – boed yn darparu gofal uniongyrchol ai peidio
- parchu a diogelu urddas pobl
- cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth, a pharchu gwahaniaethau diwylliannol – gan
- sicrhau bod pob person yn cael ei drin yn deg waeth beth fo'i gredo a'i werthoedd cydnabod eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain, heb eu gorfodi ar bobl eraill
- bod yn gyfrifol am sicrhau na chyfaddawdir gofal â phobl yn ganolog iddo yn sgil eu gwerthoedd a'u credoau personol
- defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl

Nid trafod pob agwedd ar gydsyniad yw diben y canllawiau hyn, ac nid oes ynddynt gyngor cyfreithiol manwl. Maent, fodd bynnag, yn adlewyrchu'r gyfraith fel y mae ym Mhrydain adeg eu cyhoeddi.

Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gyfraith ddiweddaraf, ac unrhyw bolisïau cyfrinachedd neu bolisïau GIG sy'n berthnasol yn eu maes gwaith penodol nhw.

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gweithio mewn llawer o fathau o leoliadau. Felly gallai perthnasedd y canllawiau hyn i weithiwr fferyllol, a sut y ceir cydsyniad, amrywio yn dibynnu ar rôl y gweithiwr fferyllol a'r math o gontract sydd rhyngddo a'r person sy'n derbyn gofal.

Mae gennym **ystod o ganllawiau** ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol gyrraedd ein safonau. Yn benodol, wrth ddarllen y canllawiau hyn, gweler hefyd ein dogfen ***Ar waith: Canllawiau ar gyfrinachedd***.

Cydsyniad

1. Beth yw cydsyniad?

1.1. Mae'r Oxford English Dictionary yn diffinio 'cydsynio' fel 'mynegi parodrwydd i wneud rhywbeth, rhoi caniatâd, cytuno'.

1.2. Mae gan bobl hawl sylfaenol i fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal iechyd. Mae cael cydsyniad yn rhan hanfodol o barchu hawliau pobl.

1.3. Mae cael cydsyniad hefyd yn rhan hanfodol o ffurfio a chynnal perthynas effeithiol rhwng gweithwyr fferyllol a phobl sy'n derbyn gofal.

1.4. Mae gan weithwyr fferyllol gyfrifoldeb proffesiynol a chyfreithiol i gael cydsyniad person ar gyfer y gwasanaethau proffesiynol, y driniaeth neu'r gofal mae'n ei dderbyn, ac i ddefnyddio gwybodaeth amdano.

1.5. Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol fod yn gyfarwydd â'r gyfraith ac anghenion arfer da ynghylch cydsyniad sy'n berthnasol i'w gwaith bob dydd, a chydymffurfio â nhw.

2. Mathau o gydsyniad

2.1 Mae dau fath o gydsyniad:

- cydsyniad penodol: pan fo person yn rhoi caniatâd penodol, ar lafar neu mewn ysgrifen, i weithwyr fferyllol proffesiynol i wneud rhywbeth
- cydsyniad dealledig: pan fo person yn rhoi ei gydsyniad yn anuniongyrchol, drwy ddod â'i bresgripsiwn i weithwyr fferyllol, er enghraifft. Nid yw hyn yn ffurf lai ei gwerth o gydsyniad, ond dim ond pan fo person yn gwybod i beth y mae'n cydsynio, ac yn ei ddeall, y mae'n ddilys. Os yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ansicr a oes ganddo gydsyniad dealledig, dylai gael cydsyniad penodol.

2.2 Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol i benderfynu pa fath o gydsyniad y dylai ei gael. Dylai gweithwyr fferyllol ystyried anghenion cyfreithiol, anghenion y GIG, ac unrhyw bolisïau ar y mater yn eu man gwaith.

2.3 Pan fo hynny'n briodol, dylai gweithwyr fferyllol gofnodi'r ffaith fod y person sy'n derbyn gofal wedi rhoi cydsyniad penodol a'r hyn y mae wedi cydsynio iddo.

2.4 Gellir defnyddio cydsyniad fel amod ar gyfer prosesu gwybodaeth person dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn cynnwys: deddfwriaeth diogelu data domestig y DU, **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) (GDPR)** a **Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA)**. Byddai angen cydsyniad i ganiatáu i wybodaeth person gael ei rhannu gyda thrydydd parti pe na bai sail gyfreithiol arall dros wneud hynny. Pan fo cydsyniad yn cael ei ddefnyddio fel amod ar gyfer prosesu, bydd angen i berson fod wedi gweithredu'n gadarnhaol a dangos ei fod yn cytuno i'w ddata personol gael ei

rannu. Ni ellir dyfalu hyn neu ei drin fel cydsyniad dealledig pan nad yw person yn gweithredu - methu â thicio blwch 'optio allan', er enghraifft.Gweler hefyd ein dogfen ***Ar waith: Canllawiau ar gyfrinachedd***. Mae rhagor o **ganllawiau ar ddiogelu data ac ar gydsyniad yng nghyd-destun GDPR** ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

3. Cael cydsyniad

3.1 Er mwyn i gydsyniad fod yn ddilys rhaid i berson:

- fod â galluedd i roi cydsyniad (mae esboniad o 'galluedd' yn adran 4)
- fod yn gweithredu o'i wirfodd - rhaid iddo beidio â bod dan bwysau gan weithiwr fferyllol neu unrhyw un arall i wneud penderfyniad
- meddu ar wybodaeth ddigonol a chytbwys sy'n ei alluogi i wneud penderfyniad doeth. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y person sy'n derbyn gofal yn gwybod am unrhyw risgiau materol sydd ynghlwm wrth driniaeth a argymhellir, ac am unrhyw driniaethau rhesymol eraill sydd ar gael. Mae risgiau materol yn golygu risgiau y byddai person rhesymol yn eu hystyried yn rhai sylweddol yn yr amgylchiadau penodol sydd ar waith, a rhai y byddai'r person penodol dan sylw yn eu hystyried yn rhai sylweddol. Rhaid datgelu risgiau materol, oni bai y byddai gwneud hynny'n ddifrifol niweidiol i iechyd y person[1] . (Gweler hefyd Adran 16 – Argyfyngau, ar gyfer adegau pan na ellir cael cydsyniad)
- gallu pwyso a mesur y wybodaeth a ddarperir
- deall canlyniadau peidio â rhoi cydsyniad

3.2 Rhaid i'r wybodaeth a roddir gan weithiwr fferyllol i berson sy'n derbyn gofal fod yn glir ac yn gywir, ac wedi ei chyflwyno mewn ffordd y gall y person ei deall. Rhaid, er enghraifft, i weithwyr fferyllol ystyried unrhyw rwystrau a gyflwynir gan anableddau, llythrennedd, iaith neu rwystrau mynediad eraill.

3.3 Ni ddylai gweithwyr fferyllol ragdybio lefelau gwybodaeth person a dylent roi digon o amser iddo ofyn cwestiynau.

3.4 Gweithwyr fferyllol sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau bod person wedi rhoi cydsyniad dilys. Rhaid i weithwyr fferyllol ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol i benderfynu a allen nhw eu hunain gael cydsyniad person, ynteu a fyddai'n briodol dirprwyo'r dasg hon. Os yw'r gweithiwr fferyllol yn dirprwyo'r dasg o gael cydsyniad, rhaid iddo sicrhau ei fod yn ei dirprwyo i aelod staff cymwys sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol.

[1]Montgomery v Bwrdd Iechyd Lanarkshire. [2015] UKSC 11. **www.supremecourt.uk/decided-cases/docs/UKSC_2013_0136_Judgment.pdf**

3.5 Mae cael cydsyniad yn broses barhaus rhwng gweithiwr fferyllol proffesiynol a'r person sy'n derbyn gofal. Ni ellir rhagdybio bod person yn cydsynio'n unig am ei fod wedi cydsynio o'r blaen. Rhaid i weithiwr fferyllol proffesiynol gael cydsyniad person bob adeg y mae angen cydsyniad, pan fo triniaeth yn newid, er enghraifft, neu'r opsiynau gwasanaeth yn newid.

3.6 Mae gan bobl â galluedd hawl i dynnu eu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg (gweler adran 7 - Pan fo oedolyn cymwys yn gwrthod rhoi cydsyniad).

Galluedd

4. Beth yw galluedd?

4.1 Yng Nghymru a Lloegr, dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, mae gan berson ddiffyg galluedd os yw'n anabl i gyfathrebu penderfyniad oherwydd nam neu ymyriad sy'n effeithio ar y ffordd y mae ei feddwl neu ei ymennydd yn gweithio ar yr adeg pan fydd angen gwneud penderfyniad.

4.2 Yn yr Alban, dan yr Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000, mae gan berson ddiffyg galluedd os na all weithredu, penderfynu neu gyfathrebu penderfyniadau, neu ddeall neu gofio ei benderfyniadau oherwydd anrhefn feddyliol neu gorfforol neu analluedd corfforol sy'n golygu na all gyfathrebu drwy unrhyw ddull.

5. Asesu galluedd

5.1 Rhaid i weithiwr fferyllol proffesiynol seilio ei asesiad ar alluedd person i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad hwnnw. Gallai person sy'n derbyn gofal fod â galluedd i wneud rhai penderfyniadau, ond heb alluedd i wneud penderfyniadau eraill.

5.2 Yn gyffredinol, er mwyn gallu gwneud penderfyniad doeth, rhaid i berson fod yn gallu:

- deall y wybodaeth a ddarperir
- cofio'r wybodaeth a ddarperir
- defnyddio a phwyso a mesur y wybodaeth a ddarperir, a
- chyfathrebu'r penderfyniad i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol (drwy unrhyw ddull)

5.3 Rhaid i weithiwr fferyllol proffesiynol beidio â rhagdybio y bydd person sydd heb alluedd ar un achlysur, neu mewn perthynas ag un math o wasanaeth, heb alluedd ar bob adeg.

5.4 Gall ffactorau eraill effeithio dros dro ar alluedd person i gydsynio: blinder, er enghraifft, neu banig neu yn sgil effeithiau cyffuriau neu alcohol. Ni ddylai hyn arwain at dybiaeth awtomatig nad oes gan y person alluedd i gydsynio. Yn hytrach, dylai gweithiwr fferyllol ddefnyddio'i grebwyll proffesiynol i benderfynu yn yr amgylchiadau penodol sydd ar waith.

5.5 Ni ddylai gweithiwr fferyllol ragdybio bod person heb alluedd dim ond ar sail ei oed, anabledd, credoau, cyflwr neu ymddygiad, neu am ei fod yn gwneud penderfyniad nad yw'r gweithiwr fferyllol yn cytuno ag ef.

5.6 Dylai gweithwyr fferyllol weithredu ymhob ffordd sy'n rhesymol i helpu a chefnogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain, neu i fod yn gymaint rhan â phosibl o'r broses benderfynu. Dylent, er enghraifft:

- gynnig cynnal y drafodaeth ar adeg pan allai'r person ddeall yn well
- defnyddio dulliau cyfathrebu priodol, ieithwedd seml neu gyfarpar gweledol

- cael rhywun arall i helpu gyda'r cyfathrebu, aelod o'r teulu, er enghraifft, neu weithiwr cymorth neu ddehonglydd

5.7 Os yw gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ansicr ynghylch galluedd person, rhaid iddo gael cyngor gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill neu gan bobl eraill sydd ynghlwm wrth ofal y person.

5.8 Os bydd gweithiwr fferyllol yn dal yn ansicr, rhaid iddo gael cyngor cyfreithiol.

5.9 Dylai unrhyw gyngor a roddir, ac unrhyw asesiadau a wneir, gael eu cofnodi'n briodol, ynghyd â'r canlyniad.

5.10 Mae rhagor o ganllawiau ar helpu pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain yn y Codau Ymddygiad sy'n cyd-fynd â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000.

Oedolion

6. Oedolion â galluedd

6.1 Rhagdybir bod gan bob oedolyn alluedd i gydsynio (hynny yw, eu bod yn gymwys) i wasanaeth neu driniaeth oni bai bod digon o dystiolaeth i awgrymu nad ydynt.

7. Pan fo oedolyn cymwys yn gwrthod rhoi cydsyniad

7.1 Os bydd oedolyn â galluedd yn gwneud penderfyniad o'i wirfodd i wrthod gwasanaeth neu driniaeth, rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol barchu'r penderfyniad - hyd yn oed pan fônt o'r farn bod y penderfyniad yn un anghywir neu y gallai achosi niwed i'r person. Nid yw hyn yn wir pan fo'r gyfraith yn dweud yn wahanol, megis deddfwriaeth iechyd meddwl[2] yn awdurdodi triniaeth orfodol.

7.2 Dylai gweithwyr fferyllol egluro canlyniadau'r penderfyniad yn glir, ond rhaid iddynt sicrhau nad ydynt yn rhoi pwysau ar y person i dderbyn eu cyngor.

7.3 Dylai gweithwyr fferyllol gadw cofnod manwl os bydd person yn gwrthod rhoi cydsyniad. Dylai hyn gynnwys cofnod o'r trafodaethau a ddigwyddodd a'r cyngor a roddwyd.

7.4 Os yw gweithiwr fferyllol yn credu y bydd person yn wynebu risg niwed difrifol yn sgil ei benderfyniad i wrthod gwasanaeth neu driniaeth, rhaid iddo godi'r mater gyda chydweithwyr gofal iechyd neu fferyllol perthnasol neu gyda phobl sydd ynghlwm wrth ofal y person, a gyda'i gyflogwr ei hun (os oes ganddo un). Dylai hefyd ystyried cael cyngor cyfreithiol os bydd angen.

8. Oedolion heb alluedd

8.1 Os yw'r person yn anabl i benderfynu drosto'i hun, rhaid i weithwyr fferyllol weithio gyda phobl sy'n agos i'r person sy'n derbyn gofal a gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd.

8.2 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000 yn egluro'r meini prawf a'r prosesau i'w dilyn wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau gofal pan nad oes gan berson alluedd i wneud rhai penderfyniadau neu bob penderfyniad drosto'i hun. Mae'r deddfau hefyd yn rhoi grym gwleidyddol i bobl benodol i wneud penderfyniadau ar ran pobl heb alluedd sy'n derbyn gofal.

8.3 Os yw gweithwyr fferyllol o'r farn nad oes gan berson allu i wneud penderfyniadau drosto'i hun, dylent ddarllen y Codau Ymddygiad sy'n cyd-fynd â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Adults with Incapacity (Scotland) Act (2000). Mae'r rhain yn egluro pwy all wneud penderfyniadau ar ran person, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent fynd ati i weithredu.

[2] Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwyigwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl Act 2007), a'r Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act 2003

Pobl ifanc a phlant

9. Pobl ifanc a phlant

9.1 Mae'r galluedd i gydsynio yn dibynnu mwy ar allu person i ddeall ac ystyried ei benderfyniad nag ar ei oed.

9.2 Yn y canllawiau hyn, mae 'person ifanc' yn golygu unrhyw un sydd yn 16 neu'n 17 oed, ac mae 'plentyn' yn golygu unrhyw un dan 16 oed. Fodd bynnag, mae unigolion yn cyrraedd galluedd llawn o ran triniaeth feddygol ar oedran gwanhaol yn yr Alban i'r hyn sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr.

9.3 Fel gydag unrhyw un arall sy'n derbyn gofal, mae'n bosibl y bydd gan berson ifanc neu blentyn sy'n derbyn gofal alluedd i gydsynio i rai gwasanaethau neu driniaethau ond dim galluedd ar gyfer penderfyniadau eraill. Mae'n bwysig, felly, bod gweithwyr fferyllol yn asesu aeddfedrwydd a dealltwriaeth pob person yn unigol, gan ystyried cymhlethdod a phwysigrwydd y penderfyniad sydd i'w wneud.

9.4 Os bydd rhaid i berson â **chyfrifoldeb rhiant** roi cydsyniad, efallai y bydd angen i weithiwr fferyllol proffesiynol gael cyngor cyfreithiol os:

- oes ganddo unrhyw amheuaeth ynghylch gyda phwy y mae'r cyfrifoldeb rhiant, neu
- na all y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant gytuno a ydynt yn rhoi cydsyniad ai peidio

9.5 Dylai pobl ifanc a phlant gael eu cynnwys gymaint â phosibl wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal, hyd yn oed pan na allant wneud penderfyniadau ar eu pennau eu hunain.

10. Pobl ifanc â galluedd

10.1 Rhagdybir bod gan bobl ifanc alluedd i wneud eu penderfyniadau eu hunain a rhoi cydsyniad i wasanaeth neu driniaeth, onid oes digon o dystiolaeth i awgrymu'r gwrthwyneb.

10.2 Wrth benderfynu a oes gan berson ifanc alluedd i gydsynio i wasanaeth neu driniaeth, dylai gweithwyr fferyllol ddefnyddio'r un meini prawf ag a wneir gydag oedolion (gweler adran 5 – Asesu galluedd).

10.3 Dylai gweithwyr fferyllol annog pobl ifanc i gynnwys eu rhieni yn y broses benderfynu. Dylai gweithwyr fferyllol, fodd bynnag, barchu cais person ifanc cymwys am gyfrinachedd.

11. Plant â galluedd

11.1 Ni ragdybir bod gan blant alluedd i gydsynio. Rhaid iddynt arddangos eu galluedd.

11.2 Gall plentyn gydsynio os yw'r gweithiwr fferyllol proffesiynol yn teimlo'n hyderus bod y driniaeth er budd gorau'r plentyn, a bod ganddo'r aeddfedrwydd a'r gallu i ddeall yn llawn y wybodaeth a roddir a'r hyn y mae'n cydsynio iddo. Os felly, ni fydd rhaid i weithwyr fferyllol gael cydsyniad hefyd gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant.

12. Pan fo pobl ifanc a phlant cymwys yn gwrthod rhoi cydsyniad

Cymru a Lloegr

12.1 Mewn rhai achosion, gall y llysoedd wrthwneud gwrthodiad person ifanc neu blentyn i gydsynio. Dylai gweithwyr fferyllol gael cyngor cyfreithiol ar hyn os bydd angen.

12.2 Mae'r gyfraith sydd ar waith pan fo person ifanc neu blentyn yn gwrthod cydsynio â thriniaeth neu wasanaeth, a rhywun â chyfrifoldeb rhiant yn anghytuno, yn gymhleth. Dylai gweithwyr fferyllol gael cyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath.

Yr Alban

12.3 Pan fo gan berson ifanc neu blentyn alluedd i benderfynu, dylid parchu ei benderfyniad. Mae hyn yn wir hyd yn oed os bydd y penderfyniad yn groes i farn y gweithiwr fferyllol neu'r sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant.

12.4 Nid yw hyn wedi ei brofi'n llawn yn llysoedd yr Alban, fodd bynnag, na hawl llys i wrthwneud penderfyniad person ifanc neu blentyn. Dylai gweithwyr fferyllol felly gael cyngor cyfreithiol mewn achosion o'r fath.

13. Pobl ifanc heb alluedd

Cymru a Lloegr

13.1 Gall person â chyfrifoldeb rhiant dros berson ifanc heb alluedd gydsynio ar ran y person ifanc hwnnw i ymchwiliadau a thriniaeth sydd er budd gorau'r plentyn ifanc.

Yr Alban

13.2 Mae hawliau person sydd â chyfrifoldeb rhiant i wneud penderfyniadau ar ran plentyn yn dod i ben pan fo'r plentyn yn 16 oed.

13.3 Dylai pobl ifanc heb alluedd i gydsynio gael eu trin fel petaent yn oedolion yn unol â'r Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000.

14. Plant heb alluedd

14.1 Pan nad oes gan blentyn alluedd i gydsynio, gall unrhyw berson â chyfrifoldeb rhiant, neu'r llys, gydsynio ar ran y plentyn.

Penderfyniadau o flaen llaw ac argyfyngau

15. Penderfyniadau o flaen llaw

15.1 Gall pobl sy'n deall ymhlygiadau eu dewisiadau benderfynu o flaen llaw ar y ffordd y byddan nhw'n cael eu trin os byddant yn colli galluedd meddyliol yn y dyfodol.

15.2 Mae gwrthodiad clir a diamwys o flaen llaw i gael triniaeth neu ymyriad, a hwnnw'n benderfyniad wedi ei wneud yn wirfoddol gan oedolyn cymwys sy'n meddu ar wybodaeth, yn debygol o fod â grym cyfreithiol.

15.3 Ni all gwrthodiad o flaen llaw i dderbyn triniaeth wrthwneud yr awdurdod cyfreithiol i roi triniaeth orfodol gan ddeddfau iechyd meddwl.

15.4 Mae penderfyniad a wneir gan berson cymwys ar yr adeg y gofynnir am gydsyniad yn disodli penderfyniadau a wnaed o flaen llaw.

Cymru a Lloegr

15.5 Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ymdrin â phenderfyniadau a wneir o flaen llaw. Er mwyn i benderfyniad o'r fath fod yn gyfreithiol ddilys, rhaid iddo fodloni meini prawf penodol a ddisgrifir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

15.6 Os nad yw penderfyniad o flaen llaw yn bodloni'r meini prawf hynny, nid yw'n rhwymol yn gyfreithiol ond gall gael ei ddefnyddio wrth benderfynu ar yr hyn sydd er budd gorau'r person.

15.7 Rhaid i weithwyr fferyllol ddilyn penderfyniad o flaen llaw os yw'n ddilys ac yn berthnasol i amgylchiadau'r presennol.

Yr Alban

15.8 Nid yw'r Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000 yn ymdrin yn benodol â phenderfyniadau o flaen llaw. Mae'n dweud, fodd bynnag, bod yn rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ystyried dymuniadau'r person sy'n derbyn gofal yn y gorffennol a'r presennol, ym mha ffordd bynnag y cyfathrebwyd nhw.

15.9 Mae'n debygol y bydd penderfyniad dilys a pherthnasol o flaen llaw yn rhwymo gweithwyr fferyllol. Ni fu unrhyw achosion penodol gerbron y llysoedd yn yr Alban hyd yn hyn, fodd bynnag. Os oes ganddo unrhyw amheuaeth, dylai gweithiwr fferyllol gael cyngor cyfreithiol.

16. Argyfyngau

16.1 Mewn argyfwng, pan fo angen triniaeth frys ar berson, a gweithiwr fferyllol yn methu â chael cydsyniad (os yw'r person yn anymwybodol, er enghraifft, ac yn anabl i benderfynu) gall ddarparu triniaeth sydd er budd gorau'r person ac sy'n angenrheidiol i achub bywyd y person neu atal gwaethygiad yn ei gyflwr. Mae hyn yn wir ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

16.2 Mae eithriad i 16.1 uchod os yw gweithiwr fferyllol yn gwybod bod penderfyniad dilys wedi ei wneud o flaen llaw i wrthod triniaeth benodol. Dylai gweithwyr fferyllol ddarllen y ddeddfwriaeth galluedd a'u codau ymddygiad, neu ofyn cyngor eu darparwr yswiriant indemniad neu ymgynghorydd cyfreithiol.

Ffynonellau gwybodaeth eraill

Cymru a Lloegr

- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

  www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents

- Codau Ymddygiad y Ddeddf Galluedd Meddyliol

  www.gov.uk/government/collections/mental-capacity-act-making-decisions

- Y Warchodfa Ddata Genedlaethol

  www.gov.uk/government/organisations/national-data-guardian

Yr Alban

- Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000

  www.legislation.gov.uk/asp/2000/4/contents

- Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000 - Codes of Practice

  www.gov.scot/Topics/Justice/law/awi/010408awiwebpubs/cop

Os oes gennych gwestiynau am, neu sylwadau ar, gynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â'n Tîm Polisi a Safonau:

Tîm Polisi a Safonau
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

0203 713 8000

standards@pharmacyregulation.org

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar bynciau eraill a allai fod o ddefnydd i chi:

www.pharmacyregulation.org/standards/guidance

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org